



Creu arweinwyr a fydd yn ffynnu yn y byd modern

Yn 2020, daeth Grŵp Llandrillo Menai'n un o unig ddau aelod Cymreig y Collab Group.

Grŵp i golegau a grwpiau colegau AB o holl wledydd y Deyrnas Unedig yw'r Collab Group. Mae ei aelodau'n sefydliadau blaengar sy'n cefnogi a chyfrannu at yr un uchelgais.

Mae colegau'r Collab Group yn gweithio gyda'i gilydd i hybu a datblygu diddordebau'r sector a chanfod datrysiadau i'r heriau sy'n wynebu'r DU o ran sgiliau a thwf economaidd. Mae'r Collab Group yn cefnogi dyfodol addysg dechnegol ledled y DU drwy ganolbwyntio ar bedair thema strategol:

- Polisi Addysg a Sgiliau
- Rhannu Ymarfer
- Talent ac Arweinyddiaeth
- Busnesau Masnachol ar y Cyd

Yn ystod blwyddyn academaidd 2021-22, cofrestrodd Grŵp Llandrillo Menai dri Uwch Reolwr ar eu Rhaglen Arweinyddiaeth sydd wedi'i bwriadu ar gyfer unigolion talentog o dan lefel Is-bennaeth sydd â'r potensial i fod yn Brif Weithredwr neu Bennaeth.

Dyma rywfaint o adborth gan rai o'r rhai a ddilynodd y rhaglen:

Rheolwr 1

Roedd yn brofiad gwerthfawr o ran dod yn fwy cyfarwydd â'r heriau mae llawer o golegau'r DU yn eu hwynebu a'r newidiadau mawr sydd ar y gorwel iddyn nhw wrth gynllunio at y dyfodol. Cafodd cryn dipyn o wybodaeth a syniadau diddorol eu rhannu, ac er bod mwyafrif y bobl ar y cwrs yn rheolwyr haen ganol, roedd hi'n braf clywed am eu profiadau a beth oedd eu barn ar y materion a drafodwyd yn ystod y flwyddyn

Cafwyd nifer o gyflwyniadau gan reolwyr canol o wahanol golegau ar faterion fel rheoli cyllid, llunio strategaeth golegol, defnyddio gwybodaeth EMSI i wneud penderfyniadau strategol wrth gynllunio'r cwricwlwm ac ati. Mi gawson ni hefyd gyflwyniadau gan ambell brif weithredwr, ac roedd y rhain yn wych!

Ar ddiwedd y flwyddyn roedd angen i ni roi cyflwyniad ar pam mai colegau Addysg Bellach yw'r sector orau ar gyfer cyflwyno cymwysterau L4 a L5 yn yr hinsawdd bresennol oherwydd yr adroddiad Augar diweddar. Roedd yn gyfle gwych i weithio mewn tîm, i reoli disgwyliadau a pharatoi cyflwyniad dan amgylchiadau heriol o bryd i'w gilydd.

Ar y cyfan mi wnes i fwynhau'r profiad yn fawr, ac o edrych yn ôl mae'n deg dweud bod rhai o'r cyflwyniadau a'r tasgau'n addas ar gyfer rheolwyr haen ganol a rheolwyr ar y lefel strategol. Ond, ar y cyfan rydw i'n meddwl bod y cynnwys wedi cael ei deilwra'n benodol ar gyfer rheolwyr haen ganol.





Rheolwr 2

Y pethau oedd yn dda:

- Mi wnaeth i mi chwilio am ddogfennau strategol i'w darllen oedd yn ymwneud â rhanbarthau y tu hwnt i Gymru. Roedd hyn yn dda o ran ehangu fy ngorwelion ac edrych ar bethau o safbwynt gwahanol.
- Roedd yn gyfle i rwydweithio â chydweithwyr o sefydliadau AB a chyrrff dyfarnu o rannau eraill o'r DU.
- Gwnaeth i mi werthuso sut mae ein polisïau a'n harferion ni yng Nghymru'n wahanol i'r rhai mewn rhannau eraill o'r DU.
- Rhoddodd gyfle i mi weithio gyda chydweithwyr o GLIM mewn cyd-destun gwahanol i'r arfer.
- Fe wnaeth ein galluogi i esbonio bod sefydliadau Addysg Bellach yn gweithredu'n wahanol yn y gwledydd datganoledig ac i roi darlun o bethau yng Nghymru i gydweithwyr o Loegr.
- Mae'r rhaglen yn golygu eich bod yn cael mentor busnes i gefnogi eich datblygiad proffesiynol, a chewch eich annog i gadw cysylltiad â'ch mentor ar ôl i'r rhaglen ddod i ben.
- Mae'n gwneud i chi feddwl am sut i gyfathrebu gyda gwahanol gynulleidfaoedd a sut i lobïo a dylanwadu'n effeithiol i gyfleu eich neges.
- Roedd mwyafrif y dosbarthiadau meistyr yn rhagorol a'u cynnwys yn graff ac ysgogol.

Pethau rydw i wedi'u dysgu o'r rhaglen:

- Mae hi'n cymryd amser ac ymdrech i feithrin perthynas gydag aelodau tîm er mwyn cyflawni tasg fel yr un a osodwyd.
- I fanteisio i'r eithaf ar y rhaglen, rydw i'n meddwl bod angen i chi fod ar lefel yn eich sefydliad sy'n eich galluogi i gael golwg ehangach ar sut mae polisïau strategol yn cael eu datblygu a'u gweithredu. Roedd llawer a oedd ar y rhaglen o sefydliadau AB eraill yn ddarlithwyr, ac ar adegau roedd yn anodd iddyn nhw allu gweld beth oedd yr 'her' o safbwynt mwy strategol. Yn bersonol, rydw i'n meddwl fy mod i ar y lefel iawn i allu elwa.

- Mi wnes i fwynhau'r profiad o allu rwydweithio gyda chydweithwyr o rannau eraill o'r DU. Roedd hi'n ddiddorol cymharu gyda'r hyn rydym ni yn ei wneud yng Nghymru a gweld sut mae datganoli'n effeithio ar yr hyn rydym ni'n ei wneud.
- Gwnaeth i mi feddwl am y ffordd rydw i'n cyfathrebu a sut rydw i'n cyfleu fy negeseuon.

Rheolwr 3

Yr agwedd ar y rhaglen wnes i ei fwynhau fwyaf oedd y sesiwn ar wybodaeth am y farchnad lafur gan EMSI. Ro'n i'n teimlo ei fod yn adnodd gwerthfawr i'w ddefnyddio ar y cyd â'r RSP ac anghenion cyflogwyr. Bydd y rhan hon o'r cwrs yn ddefnyddiol iawn yn ystod cam nesaf cynllunio'r cwricwlwm.

Roedd cael ein trochi mewn rhaglen oedd yn gweithredu ledled y DU yn agor ein meddyliau i flaenoriaethau'r DU a sut mae'n rhaid i sefydliadau llywodraethol gydweithio i wneud i bopeth ddigwydd.

Mi wnes i hefyd fwynhau gweithio gyda chyfoedion o sefydliadau eraill ar brosiect cyffredin. Mi wnaethon ni weithio mewn tîm i gymharu a gwrthgyferbynnu rôl y colegau sy'n cynnig darpariaeth Lefel 4 yn y DU. Roedd yna wahaniaethau mawr rhwng y pedair cenedl. Roedd yn agoriad llygaid. Er na wnaethon ni ennill, roedd yr adborth yn adeiladol iawn ac fe fydd yn ein helpu i wella ein gwendidau.

